# Polisi Ymgysylltiad Academaidd

Polisi: 2025 Fersiwn 5.0

Daw i rym: 28 Hydref 2025

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

---

| Dyddiadau | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 27 Hydref 2025 | 2024 Fersiwn 4.0 | Ailysgrifennu'r polisi i adlewyrchu gofynion Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig. |
| Hydref 2024 | 2023 Fersiwn 3.0 | Newidiadau i'r Camau a'r Broses Apelio |
| Haf 2023 | 2022 Fersiwn 2.1 | Adolygiad o'r camau |
| Medi 2022 | 2022 Fersiwn 2.0 | Mân newidiadau a chynnwys Siart Llif a Map |
| Ebrill 2022 | 2021 Fersiwn 1 | Adolygu a diweddaru'r polisi yn unol â newidiadau gweinyddol a wnaed yn ystod 2021/22 |
| Mawrth 2021 | Amherthnasol | Cyfuno'r Polisi Ymgysylltiad Cartref/UE a Rhyngwladol |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Dirprwy Gofrestrydd Academaidd: Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 28 Hydref 2025 | Bob blwyddyn. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau’r Coleg yn y drefn honno, fel y bo’n briodol.

# Polisi Ymgysylltiad Academaidd

Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Prifysgol Bangor o fonitro a chefnogi presenoldeb ac ymgysylltiad academaidd myfyrwyr.

## 1. Pwrpas a Chwmpas

Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Prifysgol Bangor o fonitro a chefnogi presenoldeb ac ymgysylltiad academaidd myfyrwyr. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod pob myfyriwr yn cymryd rhan weithredol yn eu dysgu a bod cefnogaeth briodol yn cael ei darparu i hwyluso canlyniadau llwyddiannus. Mae'r polisi hwn yn amlinellu dull Prifysgol Bangor o fonitro a chefnogi presenoldeb ac ymgysylltiad academaidd myfyrwyr ac mae'n cyd-fynd â Strategaeth Profiad Myfyrwyr ehangach y Brifysgol. Mae'r polisi'n sicrhau cydymffurfiaeth â:

- Gofynion Adran Fisâu a Mewnfudo'r DU (UKVI)
- Rheoliadau’r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (trwy Cyllid Myfyrwyr Cymru yn achos myfyrwyr sy'n hanu o Gymru)
- Noddwyr/Asiantaethau Ariannu yn ôl yr angen
- Fframwaith Ansawdd Medr
- Polisïau'r Brifysgol a rheoliadau academaidd

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob myfyriwr sydd wedi cofrestru ym Mhrifysgol Bangor, gydag amrywiadau penodol yn sut y caiff ei gymhwyso ar gyfer gwahanol grwpiau myfyrwyr, gan gynnwys:

- Israddedig
- Ôl-radd Hyfforddedig
- Ôl-radd Ymchwil
- Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor
- Y Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor
- Myfyrwyr sydd ar leoliad neu sy'n astudio dramor

## 2. Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau’r Brifysgol

- Monitro a chofnodi presenoldeb ac ymgysylltiad myfyrwyr gan ddefnyddio FyMangor. Bydd y data hwn yn cael ei ddefnyddio i olrhain presenoldeb ac ymgysylltiad academaidd pob myfyriwr. Bydd y data yn helpu i nodi unrhyw batrymau o ran diffyg cydymffurfiaeth â rheoliadau presenoldeb, gan alluogi'r Brifysgol i ddarparu ymyriadau cynnar a sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig.
- Darparu ymyriadau a chefnogaeth amserol pan fydd pryderon yn codi.

- Cynnal cofnodion cywir ac amserol a'u cadw am y cyfnod sy'n ofynnol.
- Cynnal yr egwyddorion o weithio mewn partneriaeth â myfyrwyr ac o wrando ar lais y dysgwyr.

Cyfrifoldebau Ychwanegol i Brifysgolion yn achos myfyrwyr sy'n ddeiliaid fisa:

- Hysbysu Adran Fisâu a Mewnfudo'r DU am ddiffyg cydymffurfiaeth ag amodau'r fisa gan fyfyrwyr y noddir eu fisa. Bydd y Brifysgol yn adrodd am **ddiffyg cydymffurfiaeth o ran presenoldeb** gan **Ddeiliaid Fisa Myfyriwr** i **Adran Fisâu a Mewnfudo'r DU** o fewn **5 diwrnod gwaith** o ddod i wybod am y mater. Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr sydd wedi methu ag ail-ymgysylltu ar ôl rhoi ymyriadau priodol ar waith. Bydd yr adroddiad hwn yn cynnwys y **manylion y myfyriwr**, y rheswm dros y diffyg cydymffurfiaeth, ac unrhyw gamau a gymerwyd.
- (Os oes angen) Rhoi manylion unrhyw drydydd parti i Adran Fisâu a Mewnfudo'r DU, boed yn y Deyrnas Unedig neu mewn gwlad arall, sydd wedi helpu i recriwtio myfyrwyr (asiantau tramor).

**Cyfrifoldebau'r Myfyriwr**

- Mynychu pob digwyddiad sydd wedi'i amserlennu.
- Adrodd am absenoldebau ac amgylchiadau lliniarol drwy FyMangor.
- Cadw manylion cyswllt yn gyfredol drwy FyMangor.
- Dylai myfyrwyr sy'n profi heriau sy'n effeithio ar eu hymgysylltiad fanteisio ar yr ystod lawn o wasanaethau cefnogi sydd ar gael ym Mhrifysgol Bangor, gan gynnwys eu tiwtor personol, cyngor myfyrwyr a gwasanaethau llesiant. Caiff myfyrwyr eu hannog i fynd ati'n rhagweithiol i geisio cymorth.
- Yn achos myfyrwyr rhyngwladol: gwnewch yn siŵr bod o leiaf 50% o'r ffioedd dysgu wedi cael ei dalu cyn gwirio pwy ydynt a sicrhau y bydd y gweddill yn cael ei dalu drwy gynllun talu (os nad yw wedi ei ariannu). Os oes angen cynllun talu, rhaid sefydlu hynny yn ystod y broses gofrestru ar-lein.
- Yn achos myfyrwyr cartref, caiff taliadau ffioedd dysgu, fel rheol, eu prosesu gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Mae'n ofynnol i fyfyrwyr cartref sy'n ariannu eu hunain sefydlu cynllun talu yn ystod y broses gofrestru ar-lein.

## 3. Disgwyliadau Ymgysylltu

Mae Prifysgol Bangor yn diffinio **ymgysylltiad academaidd** fel cyfranogiad gweithredol, ystyrlon a chynaliadwy gan y myfyriwr yn ei daith ddysgu. Mae'n mynd y tu hwnt i fod yn bresennol yn y cnawd ac mae'n cynnwys chwilfrydedd deallusol, buddsoddiad emosiynol, a chyfranogiad gweithredol yn y gymuned ddysgu. Mae ymgysylltu yn cwmpasu ymddygiadau megis:

- Mynychu'r holl ddosbarthiadau a sesiynau cyswllt gofynnol
- Cymryd rhan mewn seminarau, trafodaethau a gwaith grŵp
- Cyflwyno gwaith cwrs a chwblhau asesiadau
- Cynnal cyfathrebu academaidd rheolaidd (e.e., gyda goruchwylwyr neu diwtoriaid)

- Ymgysylltu'n weithredol â'r Amgylchedd Dysgu Rhithiol, gan gynnwys cyrchu deunyddiau, cyfrannu at unrhyw drafodaethau ar-lein, a chymryd rhan mewn unrhyw asesiadau neu weithgareddau ar-lein
- Yn achos **Myfyrwyr Ymchwil Ôl-radd**, mae ymgysylltiad parhaus gyda'u goruchwyliwr yn hanfodol i sicrhau cynnydd academaidd. Rhaid ymgynghori â goruchwylwyr yn rheolaidd er mwyn olrhain ymgysylltiad ac ymdrin ag unrhyw bryderon ynghylch cynnydd neu bresenoldeb.

Mae **presenoldeb** yn cyfeirio'n benodol at bresenoldeb myfyriwr mewn digwyddiadau academaidd sydd wedi'u hamserlennu ac y gellir eu holrhain, tra bo **ymgysylltiad** yn cynnwys ymddygiadau academaidd ehangach megis cyfranogiad, cyfraniad, cynnydd tuag at ddeilliannau dysgu, a defnydd o wasanaethau cefnogi.

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod bod ymgysylltiad y gysyniad aml-ddimensiwn sy'n cwmpasu amrywiaeth o elfennau:

- **Gwybyddol** (dysgu a deall)
- **Emosiynol** (ymdeimlad o berthyn a chymhelliant)
- **Ymddygiadol** (presenoldeb a chyfranogiad)
- **Annibyniaeth** (llais a dewis y myfyriwr)
- **Cymdeithasol-ddiwylliannol** (rhyngweithio a chynwysoldeb)

Dyma ddisgwyliadau ymgysylltu ar gyfer carfannau penodol o fyfyrwyr:

A. <u>Myfyrwyr Israddedig a Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig</u>

Caiff presenoldeb myfyrwyr israddedig a myfyrwyr ôl-radd hyfforddedig mewn darlithoedd ei fonitro trwy gydol y flwyddyn academaidd.

| Y Garfan o Fyfyrwyr | Math o Gyswllt | Pa Mor Aml | Dull Monitro |
|---|---|---|---|
| Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig | Bod yn bresennol mewn digwyddiadau sydd wedi'u hamserlennu (darlithoedd, tiwtorialau, seminarau neu ddigwyddiadau eraill) | Dylai myfyrwyr fynychu **POB** digwyddiad sydd wedi'u hamserlennu | Yr Ap Yma (PIN) a/neu sganio cardiau adnabod |
| Myfyrwyr ôl-radd hyfforddedig yng nghyfnod olaf eu rhaglen | Cyswllt rheolaidd â'r Goruchwyliwr | O leiaf bob pythefnos. | Cedwir cofnod o bresenoldeb a chynnydd ar FyMangor gan y Goruchwyliwr |
| **Pob Myfyriwr** | Cyfarfodydd gyda Thiwtoriaid Personol | O leiaf 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn academaidd | Cedwir cofnod o bresenoldeb ar FyMangor gan y |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | tiwtor |
| **Pob Myfyriwr** | Cyflwyno gwaith cwrs i'w asesu neu waith cwrs nad yw i'w asesu, neu ddrafft o draethawd hir, gwaith cwrs neu adroddiad; mynychu arholiad llafar (Viva) | Yn unol â'r dyddiadau sydd wedi eu pennu ar gyfer yr asesiad / arholiad | Slipiau presenoldeb a sganio cardiau adnabod |
| **Pob Myfyriwr** | Cofrestru (er mwyn ymrestru neu fatriciwleiddio) | Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd (mis Medi) ac ar ddechrau rhaglen y myfyriwr | Systemau ymrestru ac ailgofrestru ar-lein. |

Bydd staff y Gofrestrfa yn y Tîm Cydymffurfiaeth, Cofnodion Myfyrwyr ac Ymgysylltu yn monitro cofnodion presenoldeb / ymgysylltu pob myfyriwr israddedig ac ôl-radd hyfforddedig.

B. Myfyrwyr ar Leoliad Gwaith / sy'n Astudio Dramor

| Y Garfan o Fyfyrwyr | Math o Gyswllt | Pa Mor Aml | Dull Monitro |
|---|---|---|---|
| Lleoliad Gwaith/Astudio Dramor | Cyswllt â'r Ysgol Academaidd fel y diffinnir hynny yng nghanllawiau'r Lleoliad neu yn y canllawiau Astudio Dramor | O leiaf bob mis dros y ffôn, drwy e-bost neu mewn cyfarfod ar-lein, wedi'i drefnu gan yr Ysgol/Goruchwyliwr | Cedwir cofnod gan yr Ysgol neu'r Goruchwyliwr ar FyMangor |
| Lleoliadau Rhaglenni Proffesiynol | Cyswllt â'r darparwr lleoliad / goruchwyliwr | Cyswllt dyddiol; mae'n ofynnol i fyfyrwyr hysbysu eu darparwr lleoliad os na allant fynychu. | EPAD (y system portffolio electronig) os caiff ei defnyddio; adrodd yn defnyddio taenlen bapur os na ddefnyddir ePAD |

Mae'n ofyniad bod ymgysylltiad pob myfyriwr sydd ar leoliad hefyd yn cael ei fonitro. Rhaid i absenoldebau o Fangor at ddibenion academaidd (e.e. gwaith maes, cynadleddau, lleoliadau, astudio dramor ac yn y blaen) gael eu cymeradwyo gan diwtor personol/goruchwyliwr y myfyriwr *cyn* cyflwyno ffurflen Hysbysu am Absenoldeb trwy FyMangor.

Mae'r Brifysgol yn mynnu bod myfyrwyr yn sicrhau bod eu manylion cyswllt (e.e. eu cyfeiriad yn ystod y tymor a'u rhif ffôn cyswllt) yn cael eu diweddaru trwy gydol eu hastudiaethau ac yn enwedig tra byddant yn absennol o Fangor, ynghyd â'r dyddiadau y byddant yn gadael ac yn dychwelyd. Gellir gwneud newidiadau i'r cyfeiriad yn ystod y tymor trwy'r Ganolfan Geisiadau ar FyMangor.

Oni bai eu bod ar leoliad sy'n gysylltiedig â rhaglen broffesiynol, rhaid i bob myfyriwr

ddefnyddio’r ffurflenni a geir yn y Ganolfan Geisiadau ar FyMangor, cyn, yn ystod ac ar ôl eu lleoliadau.

C. Ymchwilwyr ar Raglenni Ymchwil Ôl-radd

| Y Garfan o Fyfyrwyr | Math o Gyswllt | Pa Mor Aml | Dull Monitro |
|---|---|---|---|
| Myfyrwyr ymchwil ôl-radd llawn amser | Cyswllt â’u goruchwyliwr | Bob mis drwy gyfarfod ar-lein, wyneb yn wyneb, drwy e-bost neu dros y ffôn | Cofnodi’n lleol neu, yn achos deiliaid fisa, cofnodi gorfodol ar FyMangor |
| Myfyrwyr ymchwil ôl-radd llawn amser | Cyswllt â’u goruchwyliwr | O leiaf un cyfarfod wyneb yn wyneb bob mis | Cofnodi’n lleol neu, yn achos deiliaid fisa, cofnodi gorfodol ar FyMangor |

Mae natur gradd ymchwil ôl-radd yn golygu bod goruchwyliaeth a chyswllt yn aml yn cael eu gwneud trwy ddull un i un, neu mewn grŵp bach (e.e. grŵp labordy, grŵp seminar). Mae natur unigolaidd graddau ymchwil yn gofyn am ddull gwahanol o fonitro ymgysylltiad. Mae'n hanfodol i ymchwilwyr ôl-radd fod mewn cysylltiad rheolaidd â'r goruchwyliwr i asesu cynnydd ac i ddarparu cefnogaeth. Dylai union natur ac amlder yr oruchwyliaeth fod yn seiliedig ar anghenion ac yn unol â'r meincnod ar gyfer y ddisgyblaeth, a dylid cytuno ar hynny gan y goruchwyliwr a'r ymchwiliwr (a hefyd aelodau eraill o'r pwyllgor goruchwylio os oes angen).

Os na ellir trefnu cyfarfod, rhaid defnyddio dull cyswllt arall yn lle hynny. Rhaid i'r cyfarfodydd, a phob pwynt cyswllt amgen arall, alluogi’r Goruchwyliwr i gadarnhau bod yr ymchwilydd ôl-radd yn ymroi i’w rhaglen astudio, a’u bod yn cael eu cefnogi ac yn gwneud cynnydd yn briodol. Argymhellir bod pwyntiau cyswllt rhwng ymchwilwyr ôl-radd a goruchwylwyr yn cael eu cofnodi trwy ddulliau priodol fel cofnod o oruchwyliaeth. Fodd bynnag, er mwyn bodloni gofyniad Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig, **rhaid cofnodi yn FyMangor bob mis** bob cyswllt rhwng goruchwylwyr a'r ymchwilwyr ôl-radd hynny sy'n astudio ar Fisa Astudio i Fyfyrwyr.

D. Myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni sy’n cael eu rhedeg gan Goleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor a’r Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor

| Y Garfan o Fyfyrwyr | Math o Gyswllt | Pa Mor Aml | Dull Monitro |
|---|---|---|---|
| Myfyrwyr Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor/y Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor | Isafswm presenoldeb o 80% (85% ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio ar Lefel 5 RQF neu is) | | Yn unol â gweithdrefnau lleol (gweler yr Atodiadau) |

Caiff ymgysylltiad ei fonitro yn defnyddio nifer a phatrwm y pwyntiau cyswllt a gollwyd, gan sbarduno ymyriadau fesul cam (gweler Adran 4).

## 4. Y Broses Uwchgyfeirio

A. Myfyrwyr Israddedig a Myfyrwyr Ôl-radd Hyfforddedig

At ddibenion monitro presenoldeb, caiff ymyrraeth ei sbarduno os yw myfyriwr yn colli 3, 6, neu 10 pwynt cyswllt yn olynol (mae un pwynt cyswllt yn gyfwerth ag un diwrnod lle nodir presenoldeb / ymgysylltiad), neu os oes patrwm clir o beidio â bod yn bresennol a bod hynny'n ddigon i fod yn destun pryder. Dyma Gamau 1 i 3 o'r Polisi Ymgysylltiad (gweler Atodiad 1 – Y Weithdrefn Uwchgyfeirio).

Mewn achosion lle na fu unrhyw ymgysylltiad/presenoldeb ers o leiaf 60 diwrnod a phan na chafwyd ymateb i unrhyw un o'r e-byst blaenorol, yna anfonir Hysbysiad Tynnu'n Ôl (yn achos myfyrwyr rhyngwladol, bydd hyn hefyd yn cynnwys hysbysiad o dynnu Fisa'n ôl).

**Gradd Meddygaeth**
Mae rheolau penodol yn berthnasol i fyfyrwyr sydd wedi ymrestru ar radd Meddygaeth yn Ysgol Feddygol Gogledd Cymru:
*LLEOLIADAU FEL RHAN O RADD MEDDYGAETH*
Blwyddyn 1 a 2
Os bydd presenoldeb myfyriwr mewn digwyddiadau addysgu craidd yn gostwng o dan 80%, bydd y myfyriwr yn cyfarfod â’r Arweinydd Blwyddyn i drafod eu habsenoldeb ac i drafod pa mor bwysig yw mynychu digwyddiadau addysgu craidd. Os bydd presenoldeb y myfyriwr yn gostwng o dan 70% erbyn diwedd y flwyddyn, ac na ellir unioni hynny trwy sesiynau dal i fyny ar gyfer absenoldebau awdurdodedig dros y cyfnod ailsefyll, yna ni all y myfyriwr symud ymlaen i'r flwyddyn nesaf. Yn yr amgylchiadau hynny, byddai'r bwrdd arholi’n penderfynu a ddylid cynnig cyfle i’r myfyriwr ail-wneud y flwyddyn.

Blynyddoedd 3, 4 a 5 - Trothwyon ar gyfer ymyrryd mewn perthynas ag absenoldeb
Os yw cyfanswm yr amser a gollwyd oddi ar leoliad proffesiynol: > 12 diwrnod o floc lleoliad, trefnir cyfarfod gyda'ch Arweinydd Blwyddyn neu enwebai. Bydd myfyrwyr yn ymgymryd â sesiynau dal i fyny / unioni gorfodol i wneud yn iawn am amser a gollwyd, fodd bynnag, bydd unrhyw unioni yn ôl disgresiwn yr Ysgol, ar ôl cyfarfod â'r Arweinydd Blwyddyn i drafod yr absenoldeb. Os na chafodd yr absenoldeb ei awdurdodi, efallai y bernir nad ydych wedi bodloni’r disgwyliadau proffesiynol ar gyfer bod yn fyfyriwr meddygaeth. Byddai hynny fel arfer yn golygu y bydd proses diffyg ymgysylltiad y Brifysgol yn cael ei rhoi ar waith, a gallai hyn olygu eich bod yn methu â symud ymlaen ac efallai y bydd angen i chi ail-wneud y flwyddyn academaidd.

Pan fo absenoldeb cronnus o 20 diwrnod yn effeithio ar fwy nag 1 Lleoliad Clinigol mewn un flwyddyn academaidd, fel arfer nid oes digon o amser i unioni o fewn y flwyddyn academaidd. Os digwydd hynny, bydd y myfyriwr yn cyfarfod â'r Arweinydd Blwyddyn i drafod cynllun unioni pwrpasol, a all arwain at fethu â symud ymlaen ac at Ohirio Astudiaethau. Fel yn yr achos uchod, os na chafodd yr absenoldeb ei awdurdodi, efallai y bernir hefyd nad ydych wedi bodloni’r disgwyliadau proffesiynol ar gyfer bod yn fyfyriwr meddygaeth.

*YR ADDYSGU FEL RHAN O RADD MEDDYGAETH*

*Ar ôl colli 3 sesiwn addysgu, gellir gwahodd y myfyriwr i gyfarfod gyda'r Arweinydd Blwyddyn i egluro eu lefel presenoldeb. Bydd yr Arweinydd Blwyddyn yn adolygu'r gweithgarwch a gollwyd ac efallai y bydd angen i'r myfyriwr wneud rhywfaint o waith dal i fyny.*

Ar ôl colli 4 sesiwn addysgu neu ragor, gwahoddir y myfyriwr i gyfarfod gyda'r Arweinydd Blwyddyn a gofynnir iddynt egluro eu lefel presenoldeb. Bydd presenoldeb yn cael ei ystyried fel rhan o asesiad yr adroddiad proffesiynoldeb.

B. Myfyrwyr ar Leoliad Gwaith / sy'n Astudio Dramor

Bydd myfyriwr yn y categori hwn yn sbarduno ymyrraeth os yw'n methu un pwynt cyswllt disgwyliedig. Dylai'r Ysgol sicrhau ei bod yn cysylltu â'r myfyriwr yn syth i drafod unrhyw broblemau sydd ganddynt. Dylai'r Ysgol hefyd hysbysu'r tîm Cydymffurfiaeth, Cofnodion Myfyrwyr ac Ymgysylltu o'r sefyllfa cyn gynted â phosibl drwy e-bostio'r Tîm ar academicengagement@bangor.ac.uk. Pan fo patrwm amlwg o ddiffyg presenoldeb yn parhau sy'n ddigonol i beri pryder, bydd hyn yn sbarduno Cam 4 o'r Weithdrefn Uwchgyfeirio.

C. Ymchwilwyr ar Raglenni Ymchwil Ôl-radd

Pan fydd goruchwyliwr ymchwil ôl-radd yn adrodd pryderon ynghylch ymgysylltiad myfyriwr ymchwil ôl-radd, neu pan fydd y Tîm Monitro yn nodi pryderon, caiff hynny ei uwchgyfeirio i'r Ysgol Ddoethurol. Caiff cynnydd academaidd ei fonitro gan Bwyllgor Adolygu yn flynyddol – os ystyrir bod cynnydd / ymgysylltiad yn anfoddhaol, bydd Pwyllgorau Adolygu ychwanegol yn cael eu cynnull. Pan na cheir gwelliant mewn cynnydd/ymgysylltiad, byddai hyn fel arfer yn golygu y byddai'r brifysgol yn ystyried terfynu'r cofrestriad.

D. Myfyrwyr sy'n astudio ar raglenni sy'n cael eu rhedeg gan Goleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor a'r Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor

Mae'r Polisi Presenoldeb ar gyfer myfyrwyr Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor yn wahanol i weithdrefnau monitro ac uwchgyfeirio'r Brifysgol ac maent i'w gweld yn Atodiad 2.

Mae'r Polisi Presenoldeb ar gyfer myfyrwyr y Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor yn wahanol i weithdrefnau monitro ac uwchgyfeirio'r Brifysgol ac maent i'w gweld yn Atodiad 3.

## 5. Absenoldebau, Eithriadau a Gwallau wrth Gofnodi Presenoldeb

Rhaid cofnodi pob absenoldeb o astudiaethau sy'n parhau 5 diwrnod gwaith neu ragor - p'un a roddwyd gwybod am hynny ymlaen llaw neu wedyn - yn yr adran cofnod presenoldeb ar FyMangor. Rhaid i fyfyrwyr gysylltu â'u Tiwtor Personol neu ag Uwch Diwtor yr Ysgol i gael awdurdodi eu habsenoldeb. Rhaid i bob myfyriwr roi gwybod i'r Brifysgol am **BOB** absenoldeb o astudiaethau. Er nad yw'r Brifysgol yn annog absenoldeb o astudiaethau, os na ellir osgoi absenoldeb, cyfrifoldeb y myfyriwr bob amser yw dal i fyny â gwaith cwrs ac asesiadau.

*Rhaid* i bob achos o deithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig gan fyfyriwr a noddir â Fisa Myfyriwr gael ei awdurdodi gan diwtor personol y myfyriwr / uwch diwtor neu oruchwyliwr *cyn* i'r myfyriwr

adael y Deyrnas Unedig. Rhaid i fyfyrwyr gynnwys manylion am y lle y maent yn mynd iddo, eu manylion cyswllt dramor, dyddiadau gadael a dychwelyd i'r Deyrnas Unedig, ac uwchlwytho hefyd eu manylion teithio (e.e. gwybodaeth am hediadau awyren). Gallai'r tîm Gweinyddu Myfyrwyr ofyn i fyfyrwyr ddangos eu pasbort ar ôl iddynt ddychwelyd i Fangor, er mwyn cael cadarnhad o'r dyddiad y gwnaethant ddychwelyd i'r Deyrnas Unedig. Sylwer y gall absenoldebau o astudiaethau effeithio ar geisiadau fisa yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol h.y. fisa i raddedigion.

Rhaid i ddeiliad fisa myfyriwr sydd wedi gwneud cais i gael gohirio eu hastudiaethau am hyd at uchafswm o 60 diwrnod fedru cwblhau eu cwrs o fewn cyfnod cyfredol eu harhosiad. Os na fydd myfyriwr yn ailafael yn eu hastudiaethau ar ôl 60 diwrnod, dan reolau'r Swyddfa Gartref, bydd rhaid i'r Brifysgol roi gwybod i'r Swyddfa Gartref a thynnu'r nawdd yn ôl, onid oes amgylchiadau eithriadol, a bydd rhaid cyflwyno tystiolaeth briodol i wirio'r amgylchiadau hynny.

Os yw myfyriwr yn credu bod gwall yn y cofnod o'u presenoldeb neu ymgysylltiad, dylent ychwanegu nodyn at yr achos(ion) perthnasol o bwnt cyswllt a gollwyd yn FyMangor a darparu tystiolaeth ategol briodol. Gall hyn gynnwys cadarnhad o bresenoldeb, neu dystiolaeth o amgylchiadau arbennig. Bydd y cofnodion hyn yn cael eu hadolygu cyn trefnu unrhyw gyfarfodydd presenoldeb ffurfiol.

## 6. Llais y Myfyrwyr a Chefnogaeth

Caiff y polisi hwn ei oruchwylio gan Grŵp Cyflawni Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig a chaiff ei adolygu'n flynyddol gan gynrychiolwyr myfyrwyr. Caiff myfyrwyr eu hannog i rannu adborth am y polisi hwn a phrosesau cysylltiedig drwy arolygon, cynrychiolwyr cwrs, a chyfarfodydd o Bwyllgorau Cyswllt Staff/Myfyrwyr. Bydd cyfathrebiadau a anfonir at fyfyrwyr mewn perthynas â'r polisi hwn yn ymdrechu i ddilyn canllawiau Cyfathrebu Tosturiol y Brifysgol. Mae ystod o gefnogaeth ar gael i fyfyrwyr, a chânt eu hannog i estyn allan yn rhagweithiol am gymorth.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod yr holl ddata presenoldeb ac ymgysylltiad yn **cael ei gadw a'i storio** yn unol ag **Atodlen Cadw Cofnodion y Brifysgol** a **rheoliadau Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig**. Bydd y data hwn yn cael ei gadw'n ddiogel a bydd ar gael i'w adolygu pe ceir **archwiliadau cydymffurfiaeth** neu ymchwiliadau gan Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig neu gyrff perthnasol eraill.

## 7. Adolygu'r Polisi a Chydymffurfiaeth

Caiff y polisi hwn ei adolygu'n flynyddol i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion:

- Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig
- Fframwaith Ansawdd Medr
- Blaenoriaethau strategol mewnol mewn perthynas â Phrofiad Myfyrwyr

Bydd unrhyw newidiadau'n cael eu cymeradwyo drwy Grŵp Cyflawni Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig a'u cyfleu i fyfyrwyr drwy SharePoint a sylfaen wybodaeth y Ddesg Gymorth.

## 8. Cyswllt:

Y Tîm Cydymffurfiaeth, Cofnodion Myfyrwyr ac Ymgysylltu – academicengagement@bangor.ac.uk
Desg Gymorth FyMangor – https://www.bangor.ac.uk/help

## Atodiadau

- Atodiad 1: Gweithdrefn Uwchgyfeirio Israddedig/Ôl-radd Hyfforddedig
- Atodiad 2: Polisi Presenoldeb Myfyrwyr Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor
- Atodiad 3: Polisi Presenoldeb y Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor

**Atodiad 1: Gweithdrefn Uwchgyfeirio i Fyfyrwyr Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig**

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ragoriaeth mewn addysg, ac wedi ymrwymo i gefnogi cynnydd a chyrhaeddiad myfyrwyr. Felly disgwyliwn i'r holl fyfyrwyr fod yn bresennol mewn darlithoedd a digwyddiadau addysgu eraill.

Mae monitro presenoldeb myfyrwyr yn rheolaidd yn galluogi Prifysgol Bangor i nodi'r myfyrwyr hynny sydd angen arweiniad neu gefnogaeth a'u cyfeirio at yr adran neu'r gwasanaeth mwyaf priodol ym Mhrifysgol Bangor. Mae'r Weithdrefn hon yn nodi sut yr ymdrinnir ag unrhyw bryderon mewn perthynas â'r materion hynny ar gyfer y myfyrwyr dan sylw.

AR DDECHRAU POB BLWYDDYN ACADEMAIDD

Ar ddechrau pob blwyddyn academaidd bydd y weithdrefn ymgysylltiad myfyrwyr fel rheol yn dechrau yn ystod wythnos 4 y semester cyntaf.  Bydd nodyn atgoffa ynghylch sut mae ymgysylltiad a phresenoldeb yn cael eu monitro, ac eglurhad o gamau'r polisi, yn cael eu dosbarthu i fyfyrwyr drwy'r Bwletin Myfyrwyr yn wythnos 2 y semester cyntaf.

**CAM 1**

Bydd **CAM 1** y Weithdrefn hon yn berthnasol o ddechrau wythnos 4 y semester cyntaf, a bydd yn berthnasol o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Bod pryderon wedi codi ynghylch presenoldeb myfyriwr a/neu eu hymgysylltiad academaidd a/neu eu lles. Bydd hynny trwy amrywiol ddulliau gan gynnwys pryderon a godir yn yr Ysgol o ran cynnydd academaidd a data presenoldeb a gofnodir ar FyMangor.
- Bod 3 phwynt cyswllt neu ragor wedi eu colli, gan gynnwys darlithoedd / tiwtorialau a / neu ddigwyddiadau cyswllt eraill yn achos israddedigion a myfyrwyr ôl-radd hyfforddedig. Caiff adroddiadau ar bresenoldeb / cysylltiadau / digwyddiadau myfyriwr eu rhedeg fel rheol yn wythnos 3 y semester ac yna bob pythefnos wedi hynny.

**Bydd myfyrwyr sy'n cyrraedd Cam 1 yn cael e-bost cefnogol awtomataidd gan y system ymgysylltiad yn eu hatgoffa am y gofynion i ymbresenoli ac am y gefnogaeth sydd ar gael.**

**Sylwer:  Gall myfyrwyr dderbyn uchafswm o 3 e-bost Cam 1 yn ystod blwyddyn academaidd.  Pan fydd myfyriwr yn absennol yn rheolaidd o ddosbarthiadau sydd wedi eu hamserlennu, byddant yn cael eu huwchgyfeirio i Gam 2 y weithdrefn.**

**CAM 2**

Bydd **CAM 2** yn berthnasol os na fu gwelliant boddhaol o ran presenoldeb a/neu ymgysylltiad ar ôl gweithredu Cam 1, a bod y myfyriwr fel rheol wedi colli 6 pwynt cyswllt yn olynol.

Bydd aelod o'r Tîm Cydymffurfiaeth, Cofnodion Myfyrwyr ac Ymgysylltu yn cysylltu â'r myfyriwr a gofynnir iddynt ymgysylltu o'r newydd ac ymateb i'r neges e-bost o fewn cyfnod byr o amser.  Os nad oes gwelliant ac na cheir ymateb i'r e-bost, ac os nad yw'r myfyriwr wedi estyn allan at ei Diwtor Personol neu Uwch Diwtor, yna bydd Cam 3 yn cael ei roi ar waith. Os yw'r

myfyriwr yn ateb yr e-bost ond ddim yn mynd i ddarlithoedd ar y campws, yna bydd Cam 3 yn cael ei roi ar waith.

**CAM 3**

Bydd **CAM 3** yn berthnasol pan fydd pob ymgais arall i ymgysylltu â'r myfyriwr wedi methu a bod y myfyriwr fel rheol wedi methu o leiaf 10 pwynt cyswllt yn olynol ac wedi methu ag ymateb i unrhyw un o'r e-byst blaenorol a heb gysylltu â'r Tîm Cydymffurfiaeth, Cofnodion Myfyrwyr ac Ymgysylltu, na chysylltu â'u Tiwtor Personol neu'r Uwch Diwtor, na chysylltu ychwaith naill ai â'r Tîm Cefnogaeth Rhyngwladol neu'r Tîm Cefnogaeth i Fyfyrwyr, ac os digwydd hynny caiff cyfarfod o'r Panel ei gynnull i drafod yr achos. Bydd y Panel yn cynnwys:

- Rheolwr y Gofrestrfa: Cydymffurfiaeth (neu enwebai)
- Uwch Swyddog: Cydymffurfiaeth, Cofnodion Myfyrwyr ac Ymgysylltu (neu enwebai)
- Pennaeth yr Ysgol berthnasol (neu enwebai)

Bydd y Panel yn ystyried pob agwedd ar yr achos gan gynnwys presenoldeb, ymgysylltiad yn gyffredinol, safbwynt academaidd a datganiad gan y myfyriwr. Os yw'r myfyriwr wedi estyn allan at Undeb y Myfyrwyr, yna bydd yr Undeb yn gallu cynorthwyo gyda'r datganiad ysgrifenedig a fydd yn cael ei ystyried yn ystod cyfarfod y Panel. Bydd y penderfyniad terfynol ynglŷn â'r camau nesaf yn cael ei gymryd gan Reolwr y Gofrestrfa: Cydymffurfiaeth a fydd yn ystyried barn y Panel.

<u>Yn achos deiliad Fisa Myfyriwr:</u>

a. Os penderfynir tynnu nawdd yn ôl oherwydd diffyg presenoldeb neu ymgysylltiad, rhaid rhoi gwybod i Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig am y mater, ac wrth wneud hynny caiff Fisa'r Myfyriwr ei dynnu'n ôl a rhaid i'r myfyriwr ddychwelyd i'w gwlad gartref o fewn cyfnod penodol o amser (60 diwrnod fel rheol).

   Fodd bynnag, ni chaiff y nawdd i'r myfyriwr ei dynnu'n ôl am 5 diwrnod gwaith, ac yn ystod y cyfnod hwnnw caiff y myfyriwr apelio yn erbyn y penderfyniad fel y nodir isod.

b. Pan benderfynir parhau i noddi'r myfyriwr, bydd yr Uwch Swyddog: Cydymffurfiaeth, Cofnodion Myfyrwyr ac Ymgysylltu yn hysbysu'r myfyriwr o'r penderfyniad mewn e-bost, a bydd yn amlinellu'n fanwl y gofynion er mwyn cael caniatâd i barhau â'u hastudiaethau (e.e. lefel y presenoldeb a'r ymgysylltiad a ddisgwylir).

O ran pwyntiau 4a. a 4b. uchod, gellid rhoi gwybod hefyd i noddwr y myfyriwr a / neu'r coleg / prifysgol gartref hefyd, a lle bo hynny'n berthnasol, byddant yn cael gwahoddiad i weithio gyda'r Tîm Cefnogi Myfyrwyr i gefnogi'r myfyriwr i gyflawni'r gofynion.

Os na fydd y myfyriwr yn gallu cadw at y gofynion a amlinellwyd o fewn yr amserlen, bydd y nawdd yn cael ei dynnu'n ôl fel yr amlinellir yn yr hysbysiad cychwynnol ynghylch tynnu eu fisa yn ôl. Mae hynny'n golygu y caiff y Cadarnhad Derbyn i Astudio a Fisa Myfyriwr y myfyriwr eu tynnu'n ôl, a bydd rhaid i'r myfyriwr ddychwelyd i'w gwlad gartref o fewn cyfnod penodol (60 diwrnod fel rheol).

**Y BROSES APELIO**

Ar ddiwedd Cam 3, pan wnaed penderfyniad i atal cofnod y myfyriwr (gyda'r Brifysgol, y Swyddfa Gartref a/neu gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr), mae gan y myfyriwr hawl i gyflwyno apêl i’r Dirprwy Gofrestrydd Academaidd (Gweinyddiaeth a Chefnogi Busnes) cyn pen pum diwrnod gwaith o gael gwybod am y penderfyniad.

Dim ond am y rhesymau canlynol y gellir cyflwyno apeliadau:

- Diffygion neu afreoleidd-dra yn ymddygiad y Panel
- Amgylchiadau arbennig sy’n ymwneud â’r penderfyniad (nad oedd y Panel yn ymwybodol ohonynt pan wnaed y penderfyniad). Rhaid i’r apelydd egluro pam na chafodd y Panel wybod am yr amgylchiadau arbennig hyn cyn y cyfarfod. Pe gallai myfyriwr fod wedi rhoi gwybod am amgylchiadau arbennig, ond na wnaeth hynny, ni all ddefnyddio’r amgylchiadau hynny wedyn fel sail i apelio.

Bydd unrhyw apêl yn cael ei hadolygu gan Gofrestrydd Academaidd y Brifysgol a bydd ei benderfyniad/ei phenderfyniad yn derfynol. Bydd y penderfyniad naill ai:

a. I gadarnhau’r apêl a chaniatáu i'r myfyriwr barhau â'i astudiaethau ym Mhrifysgol Bangor, a lle bo angen, rhoi manylion am yr amodau y mae'n rhaid i’r myfyriwr gydymffurfio â hwy.

Neu

b. I gadarnhau'r penderfyniad i atal astudiaethau'r myfyriwr.

Neu

c. I argymell bod y myfyriwr yn tynnu'n ôl o'u hastudiaethau ac yn ail-ymgeisio yn y dyfodol.

**CADW COFNODION**

Y Tîm Cydymffurfiaeth, Cofnodion Myfyrwyr ac Ymgysylltu sy’n gyfrifol am sicrhau y cedwir yr holl gofnodion perthnasol mewn perthynas â phresenoldeb myfyrwir yn y Brifysgol, yn unol ag Atodlen Cadw Cofnodion y Brifysgol a rheolau’r Swyddfa Gartref (Myfyrwyr Rhyngwladol yn unig).

**Atodiad 2: Gweithdrefn Uwchgyfeirio i Fyfyrwyr Israddedig ac Ôl-radd Hyfforddedig**

**Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor (BUIC)**
**Polisi Presenoldeb Myfyrwyr**

## 1. Rhagarweiniad

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i gan 1 eich astudiaethau yng Ngholeg Rhyngwladol Prifysgol Bangor.

## 2. Cyfeiriad yn ystod y tymor

Mae'n ofynnol i chi sicrhau eich bod yn diweddaru eich cyfeiriad yn ystod y tymor yn FyMangor. Efallai y gofynnir i chi ddarparu prawf o'ch cyfeiriad.

## 3. Presenoldeb

Mae pob gwers ar yr amserlen a phob asesiad (gan gynnwys ailasesiad) yng Ngholeg Rhyngwladol Prifysgol Bangor yn bwynt cyswllt disgwyliedig. Disgwylir i chi fynychu'r holl wersi ac asesiadau sydd wedi eu hamserlennu (gan gynnwys ailasesiadau). Mae hyn yn bwysig ar gyfer eich ymgysylltiad academaidd. Bydd eich tiwtoriaid yn cofnodi eich presenoldeb (presennol neu absennol) mewn cofrestr ym mhob gwers ac asesiad ar yr amserlen (gan gynnwys ailasesiadau). Os ydych yn fwy na 5 munud yn hwyr i wers, byddwch yn cael eich cofnodi fel absennol gan eich tiwtor.


## 4. Colli Dosbarth

Os ydych yn absennol o'r dosbarth am unrhyw reswm, byddwch yn cael eich marcio'n absennol. Ar gyfer absenoldebau heb eu cynllunio, rhaid i chi gysylltu â Choleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor cyn y wers drwy anfon e-bost at attendance-buic@bangor.ac.uk. Os ydych yn sâl, disgwylir i chi ddarparu Llythyr Meddyg neu Lythyr gan Weithiwr Iechyd Proffesiynol priodol. Bydd tystiolaeth o amgylchiadau arbennig (sefyllfa eithriadol y tu allan i'ch rheolaeth) yn cael ei chofnodi a gellir ei hystyried.

## 5. Monitro ac uwchgyfeirio

Mae'r tîm gweinyddol yn trosglwyddo'r data o gofrestrau presenoldeb myfyrwyr i daenlen electronig y mae tîm rheoli Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor, Tiwtoriaid Personol a thîm Ymgysylltiad Academaidd Prifysgol Bangor yn gallu cael mynediad ati. Os bydd eich presenoldeb yn gostwng o dan yr isafswm gofynnol o 80%, bydd y broses uwchgyfeirio ganlynol ac iddi bedwar cam yn cael ei rhoi ar waith.

**Y broses uwchgyfeirio mewn perthynas â phresenoldeb**




Mae aelod o dîm rheoli'r coleg yn cadw'r hawl i ddad-uwchgyfeirio eich achos os yw eich presenoldeb wedi gwella. Gall aelod o dîm rheoli'r coleg hefyd uwchgyfeirio eich achos os bydd eich presenoldeb yn gostwng yn sydyn.

Os bydd eich presenoldeb yn 0% ar ôl wythnos, bydd hyn yn golygu uwchgyfeirio i gam 3 ar unwaith.

Os bydd eich presenoldeb yn 0% ar ôl pythefnos, bydd hyn yn golygu uwchgyfeirio i gam 4 ar unwaith.

* Gweler y nodiadau isod am yr hyn sy'n digwydd ym mhob cam

## Camau Presenoldeb Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor

**Cam 1:**
Byddwch yn derbyn e-bost gan aelod o'r tîm gweinyddol yn tynnu sylw at eich presenoldeb isel ac yn eich gwahodd i gyfarfod ag aelod o dîm Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor cyn gynted â phosibl. Bydd gennych gyfnod adolygu o bythefnos i wella eich presenoldeb i dros 85%.

- **Caniateir uchafswm o dri chynnig i chi ar Gam 1 i wella eich presenoldeb.**

**Cam 2**:
Byddwch yn derbyn e-bost yn tynnu sylw at eich presenoldeb isel ac yn eich gwahodd i gyfarfod ag aelod o dîm Coleg Rhyngwladol Prifysgol Bangor. Bydd gennych gyfnod adolygu o bythefnos i wella eich presenoldeb i dros 85%.

- **Caniateir uchafswm o dri chynnig i chi ar Gam 2 i wella eich presenoldeb.**

**Cam 3**:
Byddwch yn derbyn e-bost yn nodi bod eich presenoldeb yn parhau i fod yn is na'r disgwyl ac yn eich gwahodd i gyfarfod gorfodol gydag aelod o'r tîm rheoli. Byddwch yn cael rhybudd ysgrifenedig. Bydd gennych gyfnod adolygu o wythnos i wella eich presenoldeb i dros 85%.

- **Caniateir uchafswm o ddau gynnig i chi ar Gam 3 i wella eich presenoldeb.**

**Cam 4**:
Bydd hyn yn berthnasol pan fydd yr holl gamau uchod wedi methu. Byddwch yn cael eich gwahodd i gyfarfod gorfodol gyda Chyfarwyddwr (neu Ddirprwy Gyfarwyddwr) y Coleg. Ar ôl y cyfarfod, gwneir penderfyniad ynghylch tynnu'ch fisa yn ôl a dod â'ch astudiaethau i ben.

## Atodiad 3: Polisi Presenoldeb y Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor

### Presenoldeb

Mae'n bwysig eich bod yn mynychu'r holl ddosbarthiadau sy'n rhan o'r cwrs hwn (cyn belled ag y bo modd), er mwyn gwneud y cynnydd a fydd yn caniatáu i chi basio'r asesiadau. Bydd eich athrawon yn monitro eich presenoldeb ar gofrestr electronig. Mae Adran Fisâu a Mewnfudo'r Deyrnas Unedig yn gofyn am bresenoldeb o 85% er mwyn i'ch fisa barhau'n ddilys. Os bydd eich presenoldeb yn dechrau gostwng o dan 80%, byddwch yn derbyn cyfres o lythyrau rhybudd. Os na fydd eich presenoldeb yn gwella, efallai y gofynnir i chi adael y cwrs, ac os yw o dan 80% erbyn diwedd y cwrs, ni fyddwch yn cael cymryd yr asesiadau a ni fyddwch yn llwyddo yn y cwrs.

### Colli dosbarth

Os ydych yn absennol o'r dosbarth am unrhyw reswm, byddwch yn cael eich marcio'n 'absennol'. Fodd bynnag, rydym yn deall y gall fod adegau pan fydd angen i chi golli dosbarth am wahanol resymau. Os ydych yn bwriadu colli dosbarth, dylech ddweud wrth eich athro neu gyfarwyddwr y cwrs. Rhaid i chi ddarparu dogfennaeth ategol lle bynnag y bo modd (e.e. llythyr swyddogol ynghylch apwyntiad).

Os nad yw eich absenoldeb wedi'i gynllunio (er enghraifft, os byddwch yn teimlo'n sâl yn y bore), mae'n rhaid i chi gysylltu â'r Ganolfan Iaith Saesneg i Fyfyrwyr Tramor i roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl na fyddwch yn dod i'r dosbarth. Gallwch wneud hyn drwy e-bostio'r tîm Gweinyddu Bywyd Myfyrwyr elcos@bangor.ac.uk neu trwy anfon e-bost at eich athro/athrawes. Os byddwch yn absennol oherwydd salwch am 5 diwrnod neu fwy, bydd angen i chi hefyd gyflwyno tystysgrif gan feddyg.

Sylwer, os byddwch yn colli dosbarth, eich cyfrifoldeb chi yw dal i fyny â'r gwaith yr ydych wedi'i golli trwy siarad â'ch cyd-fyfyrwyr, defnyddio'ch llyfr cwrs, a gofyn i'ch athro beth gafodd ei drafod yn y dosbarth.

Os oes angen i chi gymryd absenoldeb estynedig mewn amgylchiadau arbennig neu eithriadol, siaradwch â Simon (Cyfarwyddwr y Ganolfan: s.robertson@bangor.ac.uk) cyn gynted â phosibl.

### Prydlondeb

Mae amseroedd dechrau dosbarthiadau wedi eu nodi'n glir ar amserlen eich dosbarth. Dylech fod yn barod i ddechrau eich dosbarth ar yr amseroedd hyn, fel arall byddwch yn colli gwaith sylfaen pwysig ar gyfer y wers. Os ydych yn gyson yn hwyr i'r dosbarth, bydd hyn hefyd yn effeithio ar eich cofnod presenoldeb.